

# **Y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID)**

## **Rhan 1 – Cyflwyniad**

**DOGFENNAU SQuID**

Mae hon yn un o'r tair dogfen sy'n disgrifio'r SQuID.

**Rhan 1** – Cyflwyniad

**Rhan 2** – Canllawiau ar ddewis cwestiynau

**Rhan 3** - Catalog cwestiynau

**TABL CYNNWYS**

CYFLWYNIAD .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Eglurder .....	3
Beth yw'r SQuID? .....	4
Pryd y mae'r SQuID yn cael ei ddefnyddio?.....	4
Sut y mae'r SQuID yn gweithio?.....	5
ADRAN 1: ANGHENION Y PRYNWR – DULL SEILIEDIG AR RISG .....	7
ADRAN 2: CANLLAWIAU CYFFREDINOL I'R PRYNWR .....	9
Beth i'w ystyried yn y cam dewis a beth i'w ystyried yn y cam dyfarnu.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Cyhoeddi manylebau llawn a gofynion sylfaenol yn gynnar .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Yr angen i ddewis ac ychwanegu cwestiynau, ac addasu'r canllawiau .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Sgorio a phwysoli'r ymatebion .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Prif gontractwyr ac is-gontractwyr .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## CYFLWYNIAD

Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu prynwyr i benderfynu sut i asesu a yw cynigwyr yn gymwys, un ai drwy ddefnyddio holiadur cyn-gymhwys neu drwy gynnwys cwestiynau am gymhwyster mewn gwahoddiad i dendro.

Mae'r tair dogfen hyn yn egluro rhai o'r rhesymau dros ddatblygu'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) gan roi rhai canllawiau cyffredinol (Rhan 1), ac yn cynnwys fersiwn bapur fwy manwl o'r canllawiau sydd ar gael ar wefan [www.sell2wales.gov.uk](http://www.sell2wales.gov.uk) (Rhan 2) a'r rhestr o gwestiynau safonol (Rhan 3).

Yn fyr, dyma'r ffordd orau o ddefnyddio'r dogfennau hyn:

- 1** Darllenwch Ran 1, er mwyn bod yn gyfarwydd ag anghenion prynwyr yn y sector cyhoeddus a'r pwyntiau cyffredinol (adran 2).
- 2** Darllenwch Rannau 2 a 3 ar y cyd, gan ddefnyddio'r canllawiau yn Rhan 2 i benderfynu ar y set orau o gwestiynau i'w gofyn a sut i asesu'r atebion.

### **Fersiwn 3**

Drwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, cyflwynwyd nifer o newidiadau a oedd yn effeithio ar gam dewis y broses gaffael. O ganlyniad, mae newidiadau wedi cael eu gwneud i gyfran fawr o'r cwestiynau sy'n cael eu cynnwys yn Fersiwn 3 o SQuID. Y newidiadau pwysicaf yn Fersiwn 3 yw:

- Mae'r set o gwestiynau tua 30% yn llai na fersiwn 2;
- Mae cwestiynau Derbynioldeb y Cyflenwr wedi cael eu diwygio i gyd-fynd â'r Rheoliadau newydd;
- Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff cwestiynau sy'n gofyn am atebion testunol neu rifol eu newid am gwestiynau "ie/na" i gadarnhau bod y cyflenwyr yn bodloni meini prawf sy'n rhaid cael eu gosod yn glir gan brynwyr yn y "canllawiau i gynigwyr". Yna, caiff y cyflenwyr wybod bod yn rhaid iddynt fod mewn sefyllfa i roi tystiolaeth, os oes angen, a hynny heb oedi, i gadarnhau hyn cyn dyfarnu'r contract. Mewn nifer o achosion, caiff cyflenwyr yr opsiwn wedyn i gyflwyno eu tystiolaeth yn syth os ydynt yn dymuno. Mae hyn yn unol â'r Rheoliadau sy'n cyfeirio at y ddogfen ESPD sydd ar y gweill sy'n rhoi'r cyfle i gynigwyr hunanardystio eu bod yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol. Dylid casglu ac asesu tystiolaeth am y cynigydd llwyddiannus cyn dyfarnu'r contract.
- Ymarferoldeb i alluogi cyflenwyr i ddangos unrhyw hunanlanhau y maent wedi'i wneud – hyd yn oed ar gyfer gwaharddiadau gorfodol – ar sail achosion unigol.

### **Eglurder**

Er mwyn bod yn glir a chryno, rydym wedi defnyddio'r termau canlynol drwy'r ddogfen hon.

<b>Dewis</b>	Y broses ar gyfer penderfynu pa gynigwyr a gaiff eu gwahodd i dendro neu ba dendrwy a gaiff eu hystyried. Dull <b>cyn-gymhwyso</b> yw hwn os defnyddir y broses gyfyngedig. Weithiau defnyddir y term <b>cymhwyso</b> hefyd yn lle <b>dewis</b> .
<b>Dyfarnu</b>	Y broses ar gyfer penderfynu pa dendr (neu dendrau) sy'n llwyddo ac i bwy y caiff y contract ei ddyfarnu.
<b>Cynigwyr</b>	Y sefydliadau sy'n ymateb i holiadur cyn-gymhwyso neu dendr.
<b>Contractwr</b>	Sefydliad sydd o dan contract o ganlyniad i ennill mewn cystadleuaeth.
<b>Prynwr</b>	Y person (neu bersonau) yn y corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyflawni'r ymarfer caffael. Gall hyn gynnwys swyddogion caffael proffesiynol a/neu reolwyr gwasanaeth.

### **Beth yw'r SQuID?**

Mae SQuID wrthi'n cael ei gynnwys ar y Wefan Gaffael Genedlaethol, [www.gwerthwchigymru.gov.uk](http://www.gwerthwchigymru.gov.uk) a bydd yn cynnwys tair elfen. Yn gyntaf, set o'r cwestiynau craidd. Yn ail, cronfa ddata o atebion gan gyflenwyr sydd wedi'u storio er mwyn eu haildefnyddio. Yn drydydd, offeryn ar gyfer prynwyr sy'n creu holiadur ar gyfer dewis drwy ddefnyddio dull seiliedig ar risg, ar gyfer pob prosiect caffael.

Y syniad yw y bydd yr elfennau hyn yn rhoi nifer o fanteision o'u defnyddio gyda'i gilydd:

- Mwy o **effeithlonrwydd** i gyflenwyr a phrynwyr, drwy allu storio cwestiynau ac atebion safonol i'w defnyddio yn y dyfodol; drwy ofyn y nifer lleiaf posibl o gwestiynau; a hefyd drwy gymell prynwyr i beidio â gofyn am wybodaeth gan gyflenwyr oni bai eu bod yn glir ynghylch sut yn union y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio.
- Mwy o **safoni** ar y cam dewis, gan roi'r gallu hefyd i **addasu** cwestiynau i gwrdd â'r anghenion penodol ar gyfer pob ymarfer caffael.
- Mwy o **dryloywder** yn y broses dewis a'r ffordd o werthuso ymatebion - fel y bydd yn hawdd i gyflenwyr benderfynu a fyddant am gynnig am gyfle penodol neu beidio, a sut i gyflwyno'r cynnig gorau posibl mewn ffordd effeithiol.
- Proses sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw i bawb - fel y bydd gwell **cyfleoedd** gan fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau lleol i gystadlu ar sail gyfartal drwy gael set o gwestiynau pwrpasol a fydd yn dileu rhai o'r rhwystrau diangen sy'n eu hatal rhag cystadlu.

Pwrpas y SQuID yw helpu prynwyr i reoli risgiau (o fethu â chyflawni prosiect) mewn ffordd gytbwys drwy ofyn cwestiynau perthnasol a chymesur. Drwy gael contract tymor byr ar raddfa fach lle y mae'r costau a risgiau eraill o fethu'n isel, bydd llai o alw am reolaeth fanwl ac felly bydd yr ymarfer caffael yn fwy effeithlon.

### **Pryd y mae'r SQuID yn cael ei ddefnyddio?**

Gellir defnyddio'r SQuID yn ystod y cam dewis mewn unrhyw ymarfer caffael. Os ydych yn dilyn y broses gyfyngedig, y cam cyn-gymhwyso fydd hwn: byddwch am ddefnyddio'r SQuID i ddewis y cwestiynau i'w cynnwys yn yr holiadur cyn-gymhwyso. Os ydych yn dilyn y broses agored, y cam tendro fydd hwn: byddwch am ddefnyddio'r SQuID i benderfynu pa gwestiynau ar gyfer dewis i'w cynnwys yn y gwahoddiad i dendro. Gallwch ddefnyddio'r SQuID hefyd ar gyfer caffael o dan drothwyon yr UE – yn syml, bob tro y bydd angen holi cynigwyr am eu cymhwysedd ariannol a thechnegol a'u hanes blaenorol, gallwch ddefnyddio'r SQuID.

**Sut y mae'r SQuID yn gweithio?**

Ar hyn o bryd, mae fersiwn ar-lein o'r SQuID yn cael ei datblygu ar wefan GwerthwchiGymru. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau arfaethedig sydd wedi'u disgrifio isod yn cael eu cynnig yn barod ac yn cael eu defnyddio yn yr offeryn eTenderwales -

<https://etenderwales.bravosolution.co.uk/home.html>. Mae prynwyr yn gwneud defnydd cynyddol o gwestiynau SQuID sydd wedi'u storio yn y system i greu eu setiau cwestiynau eu hunain, ac mae cyflenwyr yn storio atebion i gwestiynau safonol i'w hailddefnyddio mewn ymarferiadau caffael eraill.

Ar gyfer prynwyr, mae "proses" y SQuID yn dechrau drwy ddefnyddio system seiliedig ar risg i ddewis y cwestiynau sy'n fwyaf addas ar gyfer pob ymarfer caffael. Bellach, mae hwn wedi cael ei gynnwys ar wefan GwerthwchiGymru. Ei enw yw "Squizard" ac mae wedi'i seilio ar Ran 2 o'r canllawiau hyn. Mae'r SQuID ei hun yn set o gwestiynau safonol, a phob un ohonynt yn cynnwys **canllawiau i gynigwyr** ynghylch sut y bydd pob un o'u hatebion yn cael ei asesu neu ei sgorio.

**SQuID ar GwerthwchiGymru**

Mae ochr brynu SQuID bellach ar gael ar GwerthwchiGymru. Caiff prynwyr yn cael eu hannog i lenwi holiadur byr drwy dicio blychau ac, o ganlyniad i hyn, bydd set o gwestiynau dewis yn cael ei hawgrymu. Mae'r system yn hyblyg, felly gellir tynnu cwestiynau sydd wedi'u hawgrymu ac ychwanegu cwestiynau safonol eraill os oes angen. Gellir ychwanegu cwestiynau sy'n ymwneud ag anghenion penodol hefyd. Ar ôl dewis pob cwestiwn, mae'r prynwyr yn addasu'r canllawiau ar gyfer cynigwyr. Mae'r canllawiau yn Rhan 2 o'r dogfennau hyn yn helpu prynwyr i ddewis y set orau o gwestiynau ar gyfer pob ymarfer caffael.

Ar gyfer cynigwyr, bydd y SQuID yn gronfa ddata y gallant ei defnyddio i storio ac ailddefnyddio eu hymateb i gwestiynau safonol. Gallant lenwi eu hatebion i gwestiynau ar unrhyw adeg, a hefyd mewn ymateb i gyfleoedd penodol ar gyfer caffael sydd wedi'u hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. Wrth ymateb i holiadur byddant yn gallu ailddefnyddio unrhyw ymatebion y maent wedi'u creu o'r blaen i ateb yr un cwestiwn. Byddant hefyd yn gallu addasu eu hateb i gwestiynau safonol a'i gadw yn y gronfa ddata, neu byddant yn gallu ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau gan brynwyr a pheidio â storio eu hateb yn y gronfa ddata.

Mae hyn yn cael ei ddangos yn y ffigur isod.

<b>Proses y prynwr</b>		<b>Proses y cyflenwr</b>
Cam 1 Y prynwr yn llenwi matrices risgiau		
Cam 2 Y system yn awgrymu cwestiynau safonol i'r prynwr		
Cam 3 Y prynwr yn cael y dewis o ychwanegu neu dynnu cwestiynau safonol		
Cam 4 Y prynwr yn cael y dewis o ychwanegu cwestiynau (ansafonol) i ddibenion penodol		Mae cwestiynau'r SQuID yn rhan o broffil y cyflenwr a gellir eu golygu ar unrhyw adeg
Cam 5 Y prynwr yn addasu'r canllawiau ar sgorio ac yn pwysoli cwestiynau (os bydd angen)	Dosbarthu'r holiadur dewis i gyflenwyr sydd wedi nodi eu bod yn ymddiddori yn y contract	Y cynigydd yn ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r contract (a chwestiynau SQuID os nad oes atebion iddynt yn ei broffil yn barod)

Cam 6 Y prynwr yn gwerthuso'r ymatebion gan ddefnyddio technoleg briodol (nid SQuID)	Llenwi'r holiaduron dewis a'u dychwelyd i'r awdurdod contractio	Y cynigydd yn cael y dewis o gadw ei ymatebion i gwestiynau SQuID yn ei broffil i'w defnyddio yn y dyfodol
--	---	--

Ffigur 1: Sut y bydd y SQuID yn gweithio

## ADRAN 1: ANGHENION Y PRYNWR – DULL SEILIEDIG AR RISG

Mae'r dull o weithredu o dan y canllawiau hyn yn **seiliedig ar risg**. Yr unig gwestiynau a ofynnir yw rhai sy'n helpu i osgoi risg o fethu â chwrdd ag anghenion y prynwr. Yn y tabl isod mae disgrifiad o anghenion *cyffredinol* lefel uchel y prynwr yn y sector cyhoeddus a strwythur sydd wedi'i seilio arnynt ar gyfer dewis cwestiynau sydd yn y gronfa ddata. *Nid yw'n* disgrifio'r anghenion *penodol* sy'n sbarduno'r ymarfer caffael – h.y. yr angen am y nwyddau, gwasanaethau neu waith sy'n cael eu prynu.

<u>Gwerth am Arian</u>	<p>Mae'r Prynwr yn gwario arian cyhoeddus a'i gyfrifoldeb yw ei wario mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.</p> <p>Oherwydd yr angen hwn, bydd angen i'r Prynwr ymchwilio i'r canlynol:</p> <p>→ <b>Gwerth am Arian</b></p> <p>Fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried ar gam dyfarnu (neu gam tendro) yr ymarfer caffael. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r cam dewis (neu holiadur cyn-gymhwys) yn unig.</p>
<u>Effeithlonrwydd; lliniaru'r risg o gostau ychwanegol</u>	<p>Mae'r Prynwr yn gwario arian cyhoeddus a rhaid iddo reoli'r risg o gost ychwanegol ac anghyfleustra o ganlyniad i fethiant gan y cyflenwr i gyflawni contract y cytunwyd arno. Gall cyflenwr fethu â chyflawni'r contract os bydd yr endid cyfreithiol yn methu'n ariannol, neu os nad oes ganddo gymhwyster neu allu i ddarparu'r nwyddau, gwasanaethau neu waith perthnasol, neu os nad oes ganddo systemau rheoli priodol ar waith i sicrhau bod cynnyrch neu wasanaeth o ansawdd da yn cael ei ddarparu'n brydlon.</p> <p>Oherwydd yr angen hwn, bydd angen i'r Prynwr ymchwilio i'r canlynol:</p> <p>→ <b>Statws Economaidd / Ariannol</b></p> <p>→ <b>Cymhwyster a Gallu</b></p> <p>→ <b>Rheolaeth</b></p>
<u>Diogelwch</u>	<p>Rhaid i'r corff cyhoeddus (a'r cyflogwr) sicrhau bod y cynhyrchion, gwasanaethau a gwaith y mae'n eu prynu oddi wrth drydydd partïon yn ddiogel os bydd ei staff yn delio â nhw neu os bydd y cyhoedd yn eu defnyddio. Bydd y ffordd o wneud hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar natur y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r gwaith sy'n cael ei brynu. Weithiau bydd safonau ansawdd penodol yn gymwys i hyn a bydd angen i'r corff cyhoeddus sicrhau bod y cyflenwr yn gallu cyrraedd y safonau hyn.</p> <p>Oherwydd yr angen hwn, bydd angen i'r corff cyhoeddus ddelio â'r canlynol, yn unol â'i drefniadau llywodraethu corfforaethol:</p> <p>→ <b>Iechyd a Diogelwch</b></p>
<u>Cydymffurfio â Deddfwriaeth</u>	<p>Mae'r Prynwr yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol wrth gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith, ac mae'n bosibl y bydd angen iddo ofyn am gyngor cyfreithiol. Y prif reoliadau yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, ond mae'n bosibl y bydd angen i'r corff cyhoeddus roi sylw i reoliadau eraill hefyd, yn ogystal â rhai sy'n ymwneud yn benodol â'r anghenion. Rhai enghreifftiau yw:</p> <p>→ <b>Cyfle Cyfartal</b></p> <p>→ <b>Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd</b></p> <p>→ <b>Iechyd a Diogelwch</b></p>
<u>Cyrraedd</u>	<p>Mae angen i'r Prynwr gyflawni polisiau / cyrraedd targedau perthnasol sydd wedi'u</p>

<u>targedau</u>	<p>gosod gan ei sefydliad neu gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Oherwydd yr angen hwn, mae'n bosibl y bydd angen i'r Prynwr ymchwilio i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ <b>Cyfle Cyfartal</b></li> <li>→ <b>Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd</b></li> </ul>
<u>Delwedd Gyhoeddus</u>	<p>Rhaid i'r Prynwr reoli a chynnal delwedd gyhoeddus briodol, a gofalu na fydd yn cael ei gysylltu â chyflenwyr a all amharu ar y ddelwedd hon.</p> <p>Oherwydd yr angen hwn, mae'n bosibl y bydd angen i'r corff cyhoeddus ymchwilio i'r canlynol, ochr yn ochr â'r arbenigwyr technegol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ <b>Cyfle Cyfartal</b></li> <li>→ <b>Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd</b></li> <li>→ <b>Iechyd a Diogelwch</b></li> </ul>

Mae'r set hon o anghenion cyffredinol y prynwr yn dangos bod angen rhoi sylw i'r meysydd canlynol yn ystod y broses caffael: mae Rhan 2 a Rhan 3 wedi'u trefnu ar sail y meysydd hyn.

- **A** - Rheoliad 57 (Derbynioldeb y cyflenwr)
- **B** - Statws Economaidd / Ariannol
- **C** - Cymhwyster a Gallu
- **D** - Rheolaeth
- **E** - Cyfle Cyfartal
- **F** - Cynaliadwyedd
- **G** - Iechyd a Diogelwch



## ADRAN 2: CANLLAWIAU CYFFREDINOL I'R PRYNWR

### **Beth i'w ystyried yn y cam dewis a beth i'w ystyried yn y cam dyfarnu**

Mae'r SQuID wedi'i ddyfeisio ar gyfer dewis (neu bennu cymhwyster) cynigwyr yn ystod y broses caffael. Gellir ei ddefnyddio wrth ddilyn y weithdrefn agored neu gyfyngedig neu wrth ddefnyddio deialog cystadleuol neu weithdrefnau eraill. Gellir ei ddefnyddio wrth gaffael gwasanaethau Rhan B, a hefyd ar gyfer caffael sy'n is na'r trothwyon.

D.S. Mae canllawiau manylach ar gael ar ddewis a dyfarnu yn y canllaw cynllunio caffael ar wefan Llywodraeth Cymru: [www.prp.wales.gov.uk](http://www.prp.wales.gov.uk)

### **Dewis (cyn-gymhwys)**

Pwrpas y cam dewis yw pennu'r cynigwyr y byddai'n dderbyniol gwneud contract â nhw, ac sydd â'r gallu ariannol a thechnegol (mewn egwyddor) i ddarparu'r cynnyrch neu wasanaeth sydd ei angen. Gwneir hyn drwy ofyn cwestiynau am y gorffennol ynghylch profiad blaenorol y cynigydd, ei hanes a'i sefyllfa bresennol. Ni fydd yr atebion y mae cynigwyr yn eu rhoi ar y cam hwn yn rhan o'r contract fel arfer.

### **Dyfarnu**

Pwrpas y cam dyfarnu yw gwerthuso cynigion penodol er mwyn gweld pa mor effeithiol y bydd y ffyrdd o gyflawni'r contract, a pha werth am arian y byddant yn ei roi o'u cymharu â chynigion eraill. Y cynnig a gyflwynir gan y cynigydd/cynigwyr llwyddiannus ar y cam hwn fydd yn sail i'r contract fel arfer, a dyma pam y mae'n bwysig gofyn i gynigwyr sut yn union y byddant yn cwrdd â'r angen.

Mae gwahanol ddyfarniadau cyfreithiol yn y blynyddoedd diwethaf wedi sefydlu dwy egwyddor gadarn:

- Bod *gallu'r* cynigydd i gyflawni'r contract i'w asesu bob amser drwy'r meini prawf ar gyfer dewis (yn y weithdrefn agored neu gyfyngedig neu mewn gweithdrefnau eraill).
- Ei bod yn bwysig na fydd cymysgu rhwng meini prawf ar gyfer dewis a meini prawf ar gyfer dyfarnu – a bod cwestiynau'n cael eu gofyn mewn ffordd briodol ar y cam priodol. Mae'n bosibl, ac yn angenrheidiol weithiau, y bydd yr un materion yn cael eu trafod ar y cam dewis ac ar y cam dyfarnu, ond bydd yn bwysig delio â nhw mewn ffordd wahanol.

Er enghraifft, ar gyfer gwaith ar ymgynghoriad, bydd arnoch angen gwybod ar y cam dewis a yw cwmmpas daearyddol y cwmni'n addas ac a oes digon o ymgynghorwyr sydd â'r sgiliau angenrheidiol. Ar y cam dyfarnu, byddwch yn gofyn sut y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni a chan bwy.

### **Cyhoeddi manylebau llawn a gofynion sylfaenol yn gynnar**

Un o brif amcanion y SQuID yw hyrwyddo effeithlonrwydd. Mae tystiolaeth gryf bod disgrifio'r gofynion yn glir ar y cam dewis yn arwain at lai o gynigwyr ac felly at lai o angen am werthuso cynigwyr, gan arbed amser ac arian i'r prynwr a'r cynigwyr. Y rheswm am hyn yw bod darpar cynigwyr yn gallu gweld yn syth a ydynt yn anaddas neu heb ddiddordeb a pheidio â chynnig. Drwy gyhoeddi'r wybodaeth hon yn gynnar, byddwch hefyd yn gallu ymchwilio i weld a yw profiad a hanes blaenorol y cynigydd yn berthnasol i'ch anghenion. Os na fyddwch yn gwneud hyn, byddwch yn gorfod dewis cynigwyr ar sail eu profiad blaenorol cyffredinol yn unig.

Mae hefyd yn werth nodi bod y weithdrefn gyfyngedig (gyda cham cyn-gymhwyso) yn cael ei defnyddio weithiau lle y byddai'r weithdrefn agored wedi bod yn ddewis gwell. Yn aml bydd prynwyr yn pryderu y bydd nifer mawr o gynigwyr ac yn penderfynu felly y bydd angen cam cyn-gymhwyso. Serch hynny, os defnyddir y weithdrefn gyfyngedig heb roi digon o wybodaeth am y fanyleb a'r gofynion sylfaenol ar gyfer cynigwyr, gellir cael nifer mawr o gynigwyr beth bynnag.

Mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynigwyr i hunanardystio eu bod yn bodloni'r meini prawf dewis. Bydd hyn wedyn yn gorfodi prynwyr i fod yn fwy penodol am y meini prawf dewis, a dylai hyn olygu bod gweithdrefnau un cam (ee Gweithdrefn Agored) yn cael eu defnyddio'n amlach.

### **Yr angen i ddewis ac ychwanegu cwestiynau, ac addasu'r canllawiau**

Er mwyn rhoi'r cymorth mwyaf posibl i gynigwyr, mae dewis eang o gwestiynau cyffredin wedi'u cynnwys yn y SQuID. Yr amcan yw rhoi'r cyfle mwyaf posibl i "aildefnyddio" yr atebion, ond oherwydd hynny bydd nifer mawr o'r cwestiynau hyn yn amherthnasol i'r rhan fwyaf o ymarferiadau caffael. Oherwydd hyn, mae'n bwysig bod yn ofalus i ddewis y cwestiynau perthnasol ar gyfer holiadur cyn-gymhwyso penodol. **NID YW'R set lawn o gwestiynau i'w hystyried yn "holiadur cyn-gymhwyso safonol"**. Mae Rhan 2 yn helpu prynwyr i ddewis cwestiynau perthnasol ac yn rhoi mwy o ganllawiau ar ddatblygu cwestiynau sy'n ymwneud â gofynion penodol.

Mae Rhan 3 (a'r gronfa ddata ar-lein) yn cynnwys canllawiau cyffredinol i gynigwyr ar bob cwestiwn i'w helpu i ddeall y rheswm arferol dros ofyn y cwestiwn a sut y mae eu hatebion yn debygol o gael eu sgorio. **Bydd angen addasu'r canllawiau hyn ar gyfer pob ymarfer caffael**, fel y bydd cynigwyr yn deall yn well beth yw'r trothwy ar gyfer llwyddo/methu ac a fydd y cwestiwn yn cael ei sgorio (a sut). Mae canllawiau yn Rhannau 2 a 3 ar sut i wneud hyn ar gyfer cwestiynau penodol. Mae'r canllawiau hyn yn hanfodol i gynigwyr; maent yn eu helpu i benderfynu a fyddant yn cynnig yn y lle cyntaf, beth fydd y ffordd orau o gwrdd ag anghenion y prynwr, a'r ffordd orau o gyflwyno eu hymateb. Mae adborth gan gyflenwyr wedi dangos mai hyn yw un o'r canlyniadau mwyaf defnyddiol o brosiect y SQuID.

### **Sgorio a phwysoli'r ymatebion**

Y prif reswm dros gynnal y cam dewis yw pennu cyflenwyr sydd â'r gallu i gyflawni'r contract, yn hytrach na'u rhoi ar restr fer. Fodd bynnag, ni fydd mantais i'r cyflenwyr na'r prynwyr o wahodd niferoedd mawr o gynigwyr i baratoi tendrau manwl yn y diwedd. Arfer cyffredin felly yw defnyddio dull sgorio a phwysoli ar y cam dewis.

**D.S. Rhaid i gynigwyr gael gweld yn glir sut y bydd cwestiynau'n cael eu sgorio a'u pwysoli cyn cyflwyno eu hymatebion. Felly, os defnyddir dull sgorio a phwysoli, rhaid ei egluro yn yr holiadur cyn-gymhwyso (gweithdrefn gyfyngedig, deialog cystadleuol) neu yn y gwahoddiad i dendro (gweithdrefn agored).**

Byddai defnyddio dull sgorio a phwysoli mewn rhannau helaeth o'r holiadur dewis yn gallu creu anawsterau i gynigwyr. Yn gyntaf, oni bai fod gwybodaeth glir iawn yn cael ei rhoi, gall fod yn anodd i gynigwyr ddeall beth fydd yn cael ei ystyried yn ateb "perffaith"; yn ail, yn aml (ac yn anfwriadol weithiau), bydd hyn yn anfanteisiol i gwmnïau llai sydd heb fod mor sefydledig, ac i'r rheini sydd â llai o brofiad o gyflwyno cynigion. Felly, os oes modd, dim ond yn y nifer lleiaf posibl o feysydd y dylid rhoi sgôr am atebion ar y cam dewis, a'r rheini'n feysydd sy'n ymwneud yn wirioneddol â gallu'r cynigydd i gwrdd â'r anghenion. Rhaid dewis y meysydd hyn yn ofalus hefyd er mwyn peidio â ffafrio'r busnesau mwyaf, oni bai fod rhesymau da dros wneud hynny. Rhaid ystyried pob dull sgorio neu bwysoli'n ofalus iawn, gan ei ddadansoddi ar sail sensitifrwydd os oes modd, a'i egluro'n llawn wedyn i'r cynigwyr.

### **Prif gontractwyr ac is-gontractwyr**

Pan fydd cynigydd (y prif gontractwr fel arfer) yn ymateb i'r cwestiynau yn yr holiadur dewis, mae'n bosibl na fydd wedi dewis ei is-gontractwyr yn derfynol, os oes bwriad i'w defnyddio o gwbl. Felly, mae'n bosibl na fydd modd holi cynigwyr am is-gontractwyr ar y cam dewis.

Y dull o weithredu yn y SQuID, felly, yw sicrhau bod y cynigydd yn *barod* i raeadru i unrhyw is-gontractwyr a ddefnyddir wedyn, yr un gofynion am gymhwyster a oedd wedi'u cymhwyso at y cynigydd ei hun. Felly, dylid gofyn cwestiynau priodol ar y cam tendro i sicrhau bod cynigwyr wedi dewis is-gontractwyr sydd â chymwysterau addas.

### **Cynigion gan Consortia**

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau newydd ar gynigion gan consortia am gontractau cyhoeddus, o'r enw Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd. Mae'r canllaw hwn ar gael ar y wefan [www.wales.gov.uk/jointbidding](http://www.wales.gov.uk/jointbidding). Cafodd nifer o ddiwygiadau eu gwneud i fersiwn 2 o'r SQuID i'w gwneud yn haws i gonsortiw gyflwyno cynnig ac mae'r newidiadau hyn wedi cael eu cynnwys hefyd yn fersiwn 3. Mae rhai cwestiynau wedi'u newid i roi cyfle i consortia gyflwyno gwybodaeth gyfunol (ar faterion ariannol, er enghraifft) yn hytrach na chyflwyno ymatebion ar wahân gan bob un o aelodau'r consortiw.